Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Llanbedr
# Llanbedr
# Gwynedd
# LL45 2NW

## Dyddiad yr arolygiad: Medi 2016

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2016: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 22/11/2016**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Gynradd Llanbedr ym mhentref Llanbedr ym Meirionnydd, Gwynedd. Cymraeg yw prif iaith yr ysgol. Daw'r llawer o'r disgyblion o'r pentref ei hun ynghyd â'r ardal wledig o'i chwmpas. Mae 48 o ddisgyblion rhwng 4 ac 11 oed ar y gofrestr. Dau ddosbarth oed cymysg sydd yn yr ysgol.

Mae tua hanner y disgyblion yn dod o gartrefi lle siaredir Cymraeg. Nid oes disgybl o gefndir ethnig lleiafrifol neu gymysg.

Tua 15% o'r disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae 25% o'r disgyblion ar gofrestr anghenion dysgu ychwanegol yr ysgol, ac ychydig iawn o sydd â datganiad anghenion addysgol arbennig.

Cychwynnodd y pennaeth strategol a'r pennaeth cynorthwyol yn eu swyddi ym mis Medi 2016. Cafodd yr ysgol ei harolygiad diwethaf ym Mehefin 2011.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Llanbedr yn 2016-2017 yw £4,945. Yr uchafswm fesul disgybl mewn ysgolion cynradd yng Ngwynedd yw £10,404 a'r lleiafswm yw £3,089. Mae Ysgol Gynradd Llanbedr yn y 18fed safle o'r ysgolion cynradd yng Ngwynedd o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Digonol** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Digonol** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad yr ysgol yn ddigonol oherwydd bod:

- llawer o disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn ystod eu hamser yno
- rhan fwyaf y disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da yn erbyn eu targedau
- medrau llafar rhan fwyaf o ddisgyblion nad ydynt yn siarad Cymraeg gartref yn datblygu'n fuan
- medrau llythrennedd Saesneg rhan fwyaf y disgyblion yn effeithiol
- medrau mathemategol y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gadarn
- bod rhan fwyaf o'r disgyblion yn gwrtais, yn ofalgar ac yn ymddwyn yn dda
- lefelau presenoldeb yn uchel a disgyblion yn dangos agweddau cadarnhaol tuag at eu gwaith
- ei bod yn darparu amrywiaeth gyfoethog o brofiadau dysgu diddorol i'w disgyblion
- iddi ethos cynhwysol a chefnogol lle teimla'r disgyblion yn hapus a diogel

Fodd bynnag:

- nid yw medrau llythrennedd Cymraeg lleiafrif o ddisgyblion wedi datblygu'n briodol
- nid yw'r cynllunio'n ddigon trwyadl i sicrhau dilyniant a pharhad ar gyfer yr ystod oed a gallu o fewn y dosbarthiadau
- nid yw'r ysgol yn cynllunio'n ddigon effeithiol ar gyfer datblygu medrau rhifedd na thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) y disgyblion ar draws y cwricwlwm.
- mae gor-arwain gan athrawon yn cyfyngu ar allu'r disgyblion i fod yn ddysgwyr annibynnol ac i arwain eu dysgu eu hunain

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn ddigonol oherwydd bod:

- y pennaeth strategol wedi rhannu gweledigaeth glir ar gyfer datblygu'r ysgol gyda'r staff, disgyblion, llywodraethwyr a rhieni
- cyfrifoldebau arwain wedi eu diffinio'n glir ac ethos o gydweithio fel tîm yn bodoli ymysg staff
- gan arweinwyr adnabyddiaeth dda o gryfderau'r ysgol a'r meysydd sydd angen eu gwella
- cyfarfodydd staff diweddar yn canolbwyntio'n glir ar flaenoriaethau gwella ac yn sicrhau bod staff yn ymwybodol o'r hyn sydd angen iddynt ei wneud er mwyn

sicrhau gwelliant
- y cynllun datblygu’n fanwl, yn nodi targedau penodol ac yn canolbwyntio’n uniongyrchol ar ddeilliannau’r disgyblion

Fodd bynnag:

- nid yw arweinwyr wedi mynd i’r afael â’r diffygion yn y cynlluniau gwaith
- hyd yn ddiweddar, nid yw’r broses hunanarfarnu wedi adnabod agweddau sydd angen eu gwella yn ddigon trylwyr,
- nid yw rolau'r tîm arwain newydd wedi eu datblygu’n llawn ac mae’n rhy gynnar i fesur effaith y trefniadau hyn

## Argymhellion

A1 Codi safonau ar draws yr ysgol yn y Gymraeg

A2 Gwella ansawdd y cynllunio er mwyn sicrhau bod datblygiad a pharhad clir i’w gweld yn y ddarpariaeth, yn enwedig ar gyfer disgyblion o allu uwch

A3 Cryfhau’r cynllunio a’r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau rhifedd a TGCh disgyblion ar draws y cwricwlwm

A4 Cynnig cyfleoedd cyson i ddisgyblion weithredu’n annibynnol er mwyn iddynt gymryd rôl lawn yn eu dysgu eu hunain

A5 Datblygu rolau aelodau’r tîm arwain newydd wrth sicrhau ansawdd a chynllunio ar gyfer gwelliant

**Beth sy’n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion.  Bydd Estyn yn adolygu cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

**Safonau: Digonol**

Mae medrau sylfaenol y disgyblion wrth iddyn nhw gychwyn yn yr ysgol yn amrywio. Fodd bynnag, yn ystod eu hamser yn yr ysgol, mae llawer ohonynt yn gwneud cynnydd cadarn. Mae'r rhan fwyaf yn gweithio'n bwrpasol yn y dosbarthiadau ac yn gwneud cynnydd priodol yn erbyn nodau'r gwersi. Mae llawer o ddisgyblion yn gallu galw i gof eu dysgu blaenorol yn effeithiol ac adeiladu arno.

O ystyried eu cefndir ieithyddol, mae medrau llafar y rhan fwyaf o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen yn datblygu'n fuan. Maent yn ymateb yn briodol i ystod o gyfarwyddiadau a chwestiynau yn y Gymraeg drwy ddefnyddio patrymau brawddeg syml yn gywir. Erbyn diwedd y cyfnod, mae llawer yn sgwrsio'n hyderus gydag ymwelwyr am eu gwaith ac yn mynegi barn synhwyrol, er bod lleiafrif yn defnyddio gormod o Saesneg yn eu hymatebion. Yng nghyfnod allweddol 2, mae mwyafrif y disgyblion yn siarad am eu gwaith yn gynyddol hyderus yn y Gymraeg, gan fynegi eu hunain yn glir a chywir. Er hyn, mae ystod geirfa a chywirdeb mynegiant Cymraeg disgyblion cyfnod allweddol 2 yn amrywio'n sylweddol. Nid yw lleiafrif y disgyblion yn cyfrannu'n ddigon estynedig wrth ateb cwestiynau yn Gymraeg. Ychydig sy'n siarad yn naturiol gyda'i gilydd drwy gyfrwng y Gymraeg. Yn y Saesneg, mae rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn trafod eu dysgu'n ddeallus ac yn esbonio eu gwybodaeth a'u syniadau'n eglur. Ar frig yr ysgol, mae'r rhan fwyaf yn mynegi eu hunain yn effeithiol ac yn ymateb i siaradwyr yn gywir ac estynedig.

Mae rhan fwyaf o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen yn darllen ar goedd yn rhugl ac ystyrlon ar lefel sy'n briodol i'w hoed a'u gallu. Defnyddiant strategaethau priodol wrth ddarllen geiriau anghyfarwydd. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, gall y rhan fwyaf drafod cynnwys testun yn ystyrlon gan gyfeirio at ddigwyddiadau a chymeriadau yn y llyfrau y maent yn eu darllen. Mae llawer yn defnyddio eu medrau darllen yn effeithiol ar draws y meysydd dysgu, er enghraifft wrth adnabod enwau lleoedd ar fap o'r ardal leol. Mae medrau darllen Cymraeg mwyafrif o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn datblygu'n dda ac maent yn ymateb yn briodol i lyfrau ffuglen a ffeithiol. Fodd bynnag, mae diffyg rhuglder a mynegiant yn amharu ar safon darllen lleiafrif ohonynt. Mewn Saesneg, mae'r rhan fwyaf yn darllen yn gywir ar goedd a chyda mynegiant da. Mae rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn trafod prif ddigwyddiadau a chymeriadau yn eu llyfrau yn y ddwy iaith yn hyderus ac yn mwynhau trafod eu hoff awduron. Gall llawer chwilio am wybodaeth ffeithiol ar y we yn bwrpasol ar gyfer gwaith thema.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen yn ysgrifennu ystod gynyddol o frawddegau syml yn annibynnol, gan sillafu'r mwyafrif o eiriau cyffredin yn gywir a chydag atalnodi pwrpasol. Maent yn defnyddio ansoddeiriau'n hyderus i gyfoethogi eu gwaith. Er hyn, ychydig sy'n ysgrifennu'n estynedig. Mae llawer o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn gwneud cynnydd priodol yn eu gallu i ysgrifennu mewn ffurfiau amrywiol yn Gymraeg. Caiff hyn ei ddatblygu ymhellach ar draws cwricwlwm, er enghraifft wrth iddynt ysgrifennu erthygl papur newydd am y streic yn Chwarel y

Penrhyn. Ar frig yr ysgol, mae disgyblion o allu uwch yn ysgrifennu'n glir ac yn ddiddorol gan ddefnyddio paragraffau ac atalnodi'n gywir. Fodd bynnag, mae ysgrifennu annibynnol lleiafrif ohonynt yn amlygu gwallau cystrawen a mynegiant. Mae gwaith y disgyblion yn dangos cynnydd da mewn Saesneg gyda'r atalnodi, sillafu a'r gystrawen yn cyd-fynd â disgwyliadau oed y disgyblion. Mae llawer yn gwneud defnydd da o'u medrau ysgrifennu estynedig yn drawsgwricwlaidd, er enghraifft wrth ysgfrifennu am ynysoedd arfordir Cymru.

Mae rhan fwyaf o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen yn dangos gafael sicr ar ffeithiau rhif ac yn defnyddio'r wybodaeth hon yn effeithiol i ddatrys problemau rhif yn eu gweithgareddau. Maent yn cymhwyso eu medrau mewn tasgau mesur, siâp a thrin data gyda chywirdeb cynyddol. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn casglu, dadansoddi a chyflwyno gwybodaeth ar ffurf graffiau yn effeithiol, er enghraifft wrth ymchwilio i hoff ffrwythau'r disgyblion yn y dosbarth. Mae rhan fwyaf y disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn defnyddio amrywiaeth dda o gyfrifo yn y pen a chyfrifo ysgrifenedig mewn gwersi mathemateg yn gywir. Maent yn defnyddio iaith fathemategol yn gynyddol gywir. Mae llawer o'r disgyblion yn gwneud defnydd priodol o'u medrau trin data mewn gwyddoniaeth wrth gofnodi canlyniadau ymchwiliadau gwyddonol, er enghraifft wrth ddarganfod yr hyn sy'n digwydd i faint cysgod dros gyfnod. Fodd bynnag, nid yw'r disgyblion yn defnyddio a chymhwyso eu medrau rhifedd yn ddigon aml nac yn ddigon effeithiol mewn pynciau eraill ar draws y cwricwlwm.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu eu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn briodol mewn meysydd dysgu ac ar draws y cwricwlwm. Maent yn defnyddio pecynnau TGCh i wneud cyflwyniadau da o'u gwaith, er enghraifft wrth i ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen gyfuno llun a thestun wrth ailadrodd stori Jac a'r goeden ffa. Mae rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn defnyddio'r rhyngrwyd yn ddiogel ac yn effeithiol i chwilio am wybodaeth, er enghraifft wrth greu ffeil o ffeithiau am Batagonia. Mae gwybodaeth y rhan fwyaf o'r disgyblion yn gadarn am e-ddiogelwch. Mae llawer o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn ennill dealltwriaeth gymwys o sut i fwydo bas data i greu graffiau a siartiau, er enghraifft wrth gofnodi arbrawf mewn gwyddoniaeth ar ba siwgr sy'n hydoddi gyflymaf. Fodd bynnag, ychydig iawn sy'n datblygu dealltwriaeth o sut i drin neu greu taenlenni i fodelu rhyngweithiadau'r byd go iawn.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da mewn perthynas â'r targedau yn eu cynlluniau addysg unigol. Ar brydiau, fodd bynnag, nid yw disgyblion o allu uwch yn cyflawni cystal ag y gallent. Am fod nifer y disgyblion mor fach, nid yw cymariaethau perfformiad bechgyn a merched na disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim yn ddibynadwy.

Dros y blynyddoedd diwethaf, roedd nifer cymharol fach o ddisgyblion (deg neu lai) yn y grwpiau blwyddyn ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2. Gall hyn effeithio'n sylweddol ar berfformiad meincnodi'r ysgol o gymharu ag ysgolion tebyg ac o gymharu â chyfartaleddau cenedlaethol.

Ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, dros gyfnod o bedair blynedd, mae perfformiad disgyblion mewn llythrennedd ar y deilliant disgwyliedig wedi amrywio ac nid oes patrwm cyffredinol. Mae perfformiad mewn datblygiad mathemategol wedi gosod yr ysgol yn y 25% uchaf dros y 3 blynedd diwethaf. Ar y deilliant uwch, mae

perfformiad disgyblion mewn llythrennedd wedi amrywio rhwng y 50% uwch a'r 25% isaf o gymharu ag ysgolion tebyg. Mewn datblygiad mathemategol, mae gan amlaf yn yr 50% uwch.

Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, dros gyfnod o bedair blynedd, mae perfformiad disgyblion ar y lefel ddisgwyliedig yn y Gymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth wedi bod, gan amlaf, yn y 25% isaf. Ar y lefel uwch, mae perfformiad yn y pedwar pwnc, gan amlaf, yn gosod yr ysgol yn yr 50% is.

**Lles: Da**

Mae bron pob un o'r disgyblion yn mwynhau bywyd a gwaith yr ysgol ac yn teimlo'n ddiogel yno. Mae ganddynt ymwybyddiaeth gref o bwysigrwydd bwyta, yfed dŵr a chadw'n iach. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn cymryd rhan mewn ystod dda o weithgareddau ymarfer corff sy'n cyfrannu'n effeithiol at eu ffitrwydd.

Mae ymddygiad rhan fwyaf y disgyblion yn dda ac maent yn gwrtais a chroesawgar tuag at ymwelwyr. Mae'r disgyblion yn ofalgar iawn o'i gilydd ac yn dangos parch at eraill mewn gwersi ac yn ystod amser chwarae. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn dangos agweddau cadarnhaol tuag at eu gwaith ac yn gweithio'n ddiwyd am gyfnodau estynedig. Fodd bynnag, dechrau datblygu mae medrau disgyblion i wella eu dysgu eu hunain.

Mae llais y disgybl yn gryf. Mae aelodau'r cyngor ysgol yn grŵp brwdfrydig o ddisgyblion sy'n teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Maent yn weithgar yn yr ysgol, er enghraifft wrth drefnu dathlu diwrnod yr Urdd 'Shw mae! Sut mae?', gan hyfforddi ei gilydd i chwarae gemau buarth trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r aelodau'n trefnu gweithgareddau codi arian ar gyfer nifer o elusennau a chaiff hyn effaith gadarnhaol ar eu hymwybyddiaeth o anghenion eraill. Mae disgyblion yn cyfrannu'n helaeth yn y gymuned ac yn cymryd rhan flaenllaw mewn digwyddiadau cymdeithasol yn lleol.

Mae cyfraddau presenoldeb disgyblion wedi codi'n flynyddol dros gyfnod o dair blynedd. Mae hyn wedi gosod yr ysgol ymhlith y 25% uchaf o ysgolion tebyg mewn dwy o'r pedair blynedd ddiwethaf. Mae bron pob un o'r disgyblion yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Digonol** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Digonol**

Mae'r ysgol yn darparu amrywiaeth gyfoethog o brofiadau dysgu diddorol y tu mewn a thu allan sy'n ennyn diddordeb y disgyblion yn dda. Mae'r athrawon yn darparu cynlluniau gwaith priodol sy'n bodloni gofynion y Cyfnod Sylfaen, y Cwricwlwm Cenedlaethol a'r maes llafur cytûn ar gyfer addysg grefyddol. Mae'r cynlluniau gwaith yn sicrhau gweithgareddau addas ar gyfer rhan fwyaf y disgyblion, ond nid ydynt wedi eu cynllunio'n ddigon trwyadl i sicrhau dilyniant a pharhad ar gyfer yr ystod oed a gallu o fewn y dosbarthiadau.

Mae’r ysgol wedi ymateb yn briodol i ofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd. Mae’r athrawon yn cynllunio amrediad buddiol o weithgareddau sy’n datblygu medrau llythrennedd ar draws yr ysgol yn ofalus. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar safon ysgrifennu estynedig disgyblion ar draws y cwricwlwm. Fodd bynnag, nid yw’r ysgol yn cynllunio’n ddigon effeithiol ar gyfer datblygu medrau rhifedd na TGCh y disgyblion ar draws y cwricwlwm. O ganlyniad, prin yw’r cyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso eu medrau rhifedd yn effeithiol ar draws y cwricwlwm. Nid yw’r ddarpariaeth TGCh yn rhoi cyfleoedd digon cyson i ddisgyblion ddatblygu eu medrau trin data na modelu.

Mae’r dimensiwn Cymreig yn amlwg iawn yng nghynlluniau thematig yr ysgol ac yn sicrhau bod themâu’n cynnwys gwybodaeth eang am ddiwylliant a hanes Cymru. Maent yn llwyddo i ddod â chwedl o’r ardal leol yn fyw a pherthnasol wrth geisio penderfynu pwy oedd ar fai am foddi Cantre’r Gwaelod. Mae’r ysgol yn cynnig cyfleoedd buddiol i ddisgyblion gymryd rhan weithredol mewn gweithgareddau fel yr eisteddfod ac wrth astudio gwaith yr artist Catrin Williams, er mwyn cyfoethogi eu profiadau. Mae hyn yn datblygu dealltwriaeth y disgyblion o’u diwylliant a’u hardal leol yn effeithiol.

Mae’r ysgol yn cynnig profiadau addas i hybu ymwybyddiaeth y disgyblion o faterion cynaliadwyedd. Mae’r athrawon yn sicrhau bod y disgyblion yn cael profiadau da o faterion cynaliadwyedd trwy eu gwaith yn yr ardd ac wrth astudio effaith llygredd ar yr arfordir. Mae’r gwaith ar fasnach deg yn sicrhau bod disgyblion yn deall pwysigrwydd chwarae teg i weithwyr mewn gwledydd tramor. Fodd bynnag, nid yw’r cynllunio ar gyfer datblygu dealltwriaeth disgyblion o ddinasyddiaeth fyd-eang wedi ei sefydlu’n ddigon effeithiol.

**Addysgu: Digonol**

Mae athrawon yn llwyddo i feithrin a chynnal perthynas waith dda rhyngddynt â’r disgyblion, ac yn creu awyrgylch dysgu cynhaliol yn y gwersi. Mae gan yr athrawon wybodaeth bynciol briodol ac maent yn esbonio cysyniadau newydd yn glir i’r disgyblion. Mae’r gweithgareddau dysgu yn ennyn brwdfrydedd a chynnal diddordeb rhan fwyaf y disgyblion. Cefnogir y disgyblion yn effeithiol gan y cymorthyddion. Mae’r staff yn fodelau iaith cadarn ac yn gweithio’n gydwybodol i geisio trochi dysgwyr yn y Gymraeg ac maent yn llwyddo i gael y rhan fwyaf i ddeall cyfarwyddiadau yn fuan.

Yn y mwyafrif o wersi, lle mae’r addysgu yn fwyaf effeithiol, mae cyflwyniadau’r athrawon yn ennyn diddordeb y disgyblion yn dda. Mae athrawon yn holi’n fedrus, sy’n galluogi’r disgyblion i ymhelaethu ac esbonio eu hatebion yn synhwyrol. Mae tasgau wedi eu paratoi’n briodol i ymateb i anghenion penodol rhan fwyaf y disgyblion. Lle mae’r addysgu yn llai effeithiol, nid oes digon o ystyriaeth i’r gwahanol oedrannau a gallu o fewn y dosbarth. Ar brydiau, mae gor-gyfarwyddo yn cyfyngu ar allu’r disgyblion, yn enwedig y rhai o allu uwch i fod yn ddysgwyr annibynnol ac i gymryd rôl weithredol yn eu dysgu eu hunain. O ganlyniad, nid yw’r disgyblion yn meithrin medrau dysgu annibynnol nac yn gwneud cynnydd llawn bob tro.

Er bod athrawon yn defnyddio nifer o strategaethau asesu ar gyfer dysgu, anghyson yw'r defnydd ohonynt ar draws yr ysgol. Mae'r athrawon yn marcio gwaith disgyblion yn rheolaidd gan gynnig sylwadau adeiladol iddynt ar sut i wella. Fodd bynnag, ychydig o enghreifftiau sydd o'r disgyblion yn cael cyfle i ymateb i sylwadau'r athrawon. Mae gweithdrefnau diweddar yn eu lle i ddarparu cyfleoedd i'r disgyblion arfarnu eu gwaith eu hunain, a chyfoedion, ond nid ydynt eto wedi gwreiddio'n llawn. Mae'r athrawon yn defnyddio ystod briodol o ddeunyddiau asesu a phrofion safonol i asesu datblygiad disgyblion, ac yn defnyddio system electronig yn briodol i olrhain eu cynnydd. Mae'r athrawon yn defnyddio'r wybodaeth sy'n deillio o'r asesiadau yn effeithiol i drefnu cymorth ychwanegol i ddisgyblion penodol, sy'n cyfrannu at wella deilliannau.

Mae'r adroddiadau blynyddol i rieni yn bodloni'r gofynion statudol ac yn cynnwys sylwadau pwrpasol ar gynnydd eu plant.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned hapus a gofalgar lle mae disgyblion yn cael eu meithrin i fod yn ymwybodol o bwysigrwydd gofalu am ei gilydd a dangos parch at eraill, yn enwedig y rhai sy'n llai ffodus na nhw eu hunain. Mae trefniadau priodol yn bodoli ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae pwysigrwydd cadw'n heini a bwyta'n iach yn cael ei bwysleisio'n effeithiol drwy'r cwricwlwm a gweithgareddau allgyrsiol, fel y clybiau chwaraeon a garddio. Mae'r cyfnodau addoli ar y cyd yn cyfrannu'n effeithiol at hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion.

Mae'r ysgol yn cydweithio'n effeithiol gyda nifer o wasanaethau arbenigol fel therapyddion iaith, gwasanaethau cymdeithasol a chwnsela, yn ogystal â'r heddlu lleol, er mwyn cefnogi lles disgyblion.

Mae'r trefniadau ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn effeithiol. Mae'r staff yn adnabod yn gynnar y disgyblion hynny sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Maent yn cynnig cefnogaeth effeithiol iddynt drwy grwpiau ymyrraeth gyda sylw penodol at wella'u medrau llythrennedd, rhifedd ac anghenion emosiynol. Mae'r defnydd effeithiol o gymorthyddion dysgu yn sicrhau bod y disgyblion hyn yn cael mynediad llawn i'r cwricwlwm. Mae'r cynlluniau addysg unigol yn cynnwys targedau clir ac mae trefniadau priodol ar gyfer adolygu cynnydd gyda rhieni yn gyson.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned gyfeillgar, hapus, glos lle mae pwyslais ar gyfeillgarwch a gofal rhwng y staff a'r disgyblion. Adlewyrchir hyn yn yr arddangosfa hyfryd o'r goeden cyfeillgarwch sy'n hyrwyddo gwerthoedd fel maddeuant a charedigrwydd yn effeithiol. Mae iddi ethos cynhwysol amlwg lle caiff pob disgybl ei drin yn gyfartal a lle chaiff pob disgybl fynediad llawn i'r holl weithgareddau. Mae'r ysgol yn gwerthfawrogi ac yn cefnogi pob disgybl yn dda. Caiff hyn ei adlewyrchu yn ymddygiad da y rhan fwyaf ohonynt.

Mae'r safle a'r adeilad yn cael eu cynnal a'u cadw'n lân a graenus. Mae'r safle'n darparu amgylchedd ysgogol a diogel ar gyfer y disgyblion. Mae athrawon yn defnyddio adnoddau a thir yr ysgol yn effeithiol i annog disgyblion i gadw'n iach a gwerthfawrogi'r amgylchedd o'u cwmpas. Gwneir defnydd pwrpasol o'r ardal allanol ar gyfer hyrwyddo egwyddorion y Cyfnod Sylfaen sy'n ehangu profiadau dysgu'r disgyblion yn effeithiol. Mae amrywiaeth o arddangosfeydd chwaethus o weithgareddau a gwaith disgyblion ar waliau'r ystafelloedd yn rhoi bri ar eu cyflawniadau ac yn ychwanegu at ethos cartrefol a chroesawgar yr ysgol.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Digonol** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Digonol**

Mae arweinwyr wedi llwyddo i greu cymuned ddysgu ofalgar a chynhwysol gyda phwyslais amlwg ar sicrhau lles da disgyblion. Mae'r pennaeth strategol wedi rhannu gweledigaeth glir ar gyfer datblygu'r ysgol gyda'r staff, disgyblion, llywodraethwyr a rhieni. O fewn amser byr, mae wedi rhoi nifer o strategaethau cadarn ar waith ac wedi llwyddo i greu ethos o gydweithio fel tîm ymysg staff. Mae wedi gosod prosesau cadarn yn eu lle yn seiliedig ar godi safonau ac wedi dechrau monitro'r prosesau hyn yn effeithiol. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i fesur effaith y prosesau diweddar hyn ar safonau'r ysgol.

Mae swydd ddisgrifiadau yn nodi cyfrifoldebau arwain yn glir. Mae cofnodion cyfarfodydd staff diweddar yn canolbwyntio'n glir ar ddeilliannau'r disgyblion ac ar flaenoriaethau gwella. O ganlyniad, mae staff yn ymwybodol o gryfderau'r ysgol a'r hyn sydd angen iddynt ei wneud er mwyn sicrhau gwelliant. Fodd bynnag, nid yw rolau'r tîm arwain newydd wedi eu datblygu'n llawn ac mae'n rhy gynnar i fesur effaith y trefniadau hyn.

Mae'r ysgol yn ymateb yn llwyddiannus i rai blaenoriaethau cenedlaethol a lleol, er enghraifft wrth ddatblygu medrau llythrennedd disgyblion ac wrth ddatblygu'r siarter iaith a rhoi sylw dyledus i fynd i'r afael ag amddifadedd disgyblion. Fodd bynnag, nid yw'r ysgol wedi ymateb i ofynion y Fframwaith Rhifedd yn ddigon da.

Mae aelodau'r corff llywodraethol yn ymgymryd â'u dyletswyddau'n gydwybodol. Mae ganddynt wybodaeth dda am ddata perfformiad ac o'r meysydd i'w datblygu. Yn ddiweddar, mae eu hymweliadau â'r ysgol yn eu galluogi i ddeall yn well, effaith y gweithgareddau ar ddeilliannau'r disgyblion. O ganlyniad, mae rôl strategol y llywodraethwyr yn datblygu'n fwriadus ac maent bellach yn fwy parod i herio'r ysgol am ei pherfformiad.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae arweinwyr, yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, wedi gweithio'n gydwybodol gydag ymgynghorwyr her i gryfhau'r broses hunanarfarnu. Mae'r broses bellach yn seiliedig ar ystod briodol o dystiolaeth, gan gynnwys monitro gwersi, craffu ar waith disgyblion a dadansoddiad manwl o ddata, yn ogystal â chasglu barn rhieni a disgyblion. Mae adroddiadau monitro diweddar yn dilyn arsylwi addysgu a chraffu ar lyfrau, yn rhoi darlun arfarnol a chywir o sefyllfa bresennol yr ysgol. O ganlyniad, mae adroddiad

hunanarfarnu’r ysgol yn ddogfen fanwl sy’n cynnig arfarniadau cytbwys a chlir o gryfderau’r ysgol, ynghyd â’r meysydd sydd angen eu gwella. Mae’n amlygu na chafwyd digon o effaith hyd yn ddiweddar, o ran mynd i’r afael â’r agweddau sydd angen eu gwella. Enghraifft dda o hyn yw’r diffygion yn y cynlluniau gwaith. Fodd bynnag, mae’r ddogfen yn cynnig arweiniad clir i’r tîm arwain newydd i geisio gwella’r hyn sydd angen sylw.

Mae cyswllt agos rhwng deilliannau’r adroddiad hunanarfarnu a blaenoriaethau cynllun datblygu’r ysgol. Mae’r cynllun yn canolbwyntio’n glir ar wella’r ddarpariaeth a chodi safonau. Mae’n cynnwys strategaethau priodol ar gyfer gweithredu, ynghyd â meini prawf llwyddiant addas a threfniadau monitro. Mae’r defnydd o dargedau mesuradwy yn sicrhau bod arweinwyr yn medru adolygu’r cynnydd yn effeithiol. Mae’r ysgol wedi amlinellu amserlen briodol i wirio effaith eu prosesau monitro ar ddeilliannau’r disgyblion. Fodd bynnag, mae’n rhy gynnar i fesur effaith lawn y gweithdrefnau hyn ar safonau.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan yr ysgol bartneriaethau llwyddiannus sy’n cael effaith gadarnhaol ar safonau a phrofiadau dysgu disgyblion. Mae perthynas gynhyrchiol rhwng yr ysgol a’r rhieni. Mae’r Gymdeithas Cyfeillion a Rhieni yn cefnogi'r ysgol yn frwdfrydig drwy godi arian sy’n galluogi’r staff i brynu adnoddau ychwanegol fel adnoddau TGCh a llyfrau darllen. Mae’r cyfraniadau hyn yn sicrhau gwelliant yn ansawdd yr adnoddau ac yn cyfrannu at godi safonau cyflawniad y disgyblion mewn medrau fel llythrennedd. Mae’r ysgol wedi cynnal cyrsiau i'r rhieni ar sut mae staff yn addysgu llythrennedd yn y gwersi a chynnig syniadau iddynt ar sut y gallant gefnogi dysgu eu plant yn y cartref.

Mae cydweithio llwyddiannus yn bodoli gyda’r cylch meithrin sy’n sicrhau bod disgyblion yn ymgartrefu’n gyflym yn yr ysgol. Ceir partneriaeth dda hefyd gyda’r ysgol uwchradd leol, er enghraifft drwy sefydlu trefniadau pontio effeithiol sy’n sicrhau trosglwyddo esmwyth.

Mae partneriaeth lwyddiannus yn bodoli gydag asiantaethau arbenigol a’r awdurdod lleol, sy’n cael effaith gadarnhaol ar les a chynnydd disgyblion. Mae cydweithio ar brosiect darllen ac ysgrifennu gydag ysgol leol arall yn cyfrannu'n effeithiol at wella safonau llythrennedd y disgyblion. Mae athrawon yn cydweithio’n bwrpasol gydag ysgolion y dalgylch a’r ysgol uwchradd i gymedroli gwaith disgyblion yn y pynciau craidd. Mae hyn yn cryfhau dealltwriaeth yr athrawon o ofynion asesu cywir ac yn sicrhau bod eu hasesiadau’n ddibynadwy.

Mae cysylltiadau amrywiol a chadarn yn bodoli â’r gymuned leol. Daw nifer o wirfoddolwyr o’r gymuned i’r ysgol, er enghraifft i gynnal sesiynau garddio a gwnïo. Ceir partneriaeth fuddiol gyda’r Parc Cenedlaethol i fagu dealltwriaeth o gadwraeth ymysg y disgyblion, er enghraifft drwy osod blychau adar yn y coed. Ceir partneriaeth fuddiol gyda mudiad yr Urdd sy’n hybu Cymreictod ymysg y disgyblion.

**Rheoli adnoddau: Digonol**

Mae arweinwyr yn rheoli adnoddau yn effeithiol i gefnogi dysgu'r disgyblion. Mae gan yr ysgol lefel briodol o athrawon cymwys sy'n ymroddgar ac yn cydweithio'n dda. Mae cymorthyddion yn cefnogi'r athrawon yn effeithiol iawn, yn modelu iaith raenus ac yn gwneud cyfraniad gwerthfawr i ddeilliannau disgyblion ar draws yr ysgol.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer cynllunio, paratoi ac asesu athrawon wedi ei threfnu'n dda a gwnânt ddefnydd pwrpasol o'u hamser. Mae'r trefniadau hyn yn cael eu rheoli'n ofalus gan arweinwyr. O ganlyniad i'r broses rheoli perfformiad, mae arweinwyr yn cynllunio hyfforddiant yn synhwyrol mewn perthynas â blaenoriaethau'r ysgol ac anghenion unigolion. Er nad oes rhwydweithiau dysgu proffesiynol swyddogol yn bodoli ar hyn o bryd, mae'r staff yn gweithio'n effeithiol gydag ysgolion eraill wrth ddatblygu medrau ysgrifennu disgyblion.

Mae'r amrediad da o adnoddau yn cael eu rheoli'n effeithiol. Mae'r buddsoddiad diweddar mewn offer TGCh yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu medrau'r disgyblion. Mae arweinwyr, gyda chefnogaeth ac arweiniad gan swyddog cyllid yr awdurdod, yn rheoli'r cyllid yn ofalus gan sicrhau bod cysylltiad agos yn bodoli â blaenoriaethau'r cynllun datblygu ysgol.

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd priodol o'r Grant Amddifadedd Disgyblion i ddatblygu eu lles drwy gyflogi cymhorthydd i gefnogi unigolion a grwpiau penodol o ddisgyblion. O ganlyniad, mae'r disgyblion hyn yn gwneud cynnydd da yn erbyn eu targedau.

O ystyried safonau cyflawniad y disgyblion, mae'r ysgol yn rhoi gwerth digonol am arian.

# Atodiad 1: Sylwadau ar ddata perfformiad

**6612194 - Ysgol Gynradd Llanbedr**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 51 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 10.4 | |
| Grŵp PYD | 2 | (8%<PYD<=16%) |

**Cyfnod Sylfaen**

| | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2** | 7 | 5 | 6 | 8 |
| **Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)** | 71.4 | 80.0 | 100.0 | 87.5 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 1 | 3 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 7 | 5 | 6 | 8 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 71.4 | 100.0 | 100.0 | 87.5 |
| Chwartel meincnod | 4 | 1 | 1 | 3 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 28.6 | 20.0 | 33.3 | 0.0 |
| Chwartel meincnod | 2 | 3 | 3 | 4 |
| **Datblygiad mathemategol (MDT)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 7 | 5 | 6 | 8 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 71.4 | 100.0 | 100.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 1 | 1 | 1 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 42.9 | 40.0 | 50.0 | 25.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | 2 | 1 | 4 |
| **Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 7 | 5 | 6 | 8 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 85.7 | 80.0 | 100.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 1 | 1 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 28.6 | 60.0 | 100.0 | 87.5 |
| Chwartel meincnod | 3 | 2 | 1 | 1 |

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disglybion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'l gilydd.
* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

**6612194 - Ysgol Gynradd Llanbedr**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 51 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 10.4 | |
| Grŵp PYD | 2 | (8%<PYD<=16%) |

**Cyfnod allweddol 2**

| | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6** | 4 | 11 | 7 | 9 |
| **Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)** | 100.0 | 63.6 | 71.4 | 66.7 |
| Chwartel meincnod | 1 | 4 | 4 | 4 |
| **Saesneg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 4 | 11 | 7 | 9 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 100.0 | 63.6 | 71.4 | 66.7 |
| Chwartel meincnod | 1 | 4 | 4 | 4 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 50.0 | 27.3 | 28.6 | 44.4 |
| Chwartel meincnod | 1 | 4 | 4 | 3 |
| **Cymraeg iaith gyntaf** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 4 | 11 | 6 | 9 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 100.0 | 63.6 | 66.7 | 66.7 |
| Chwartel meincnod | 1 | 4 | 4 | 4 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 50.0 | 0.0 | 0.0 | 33.3 |
| Chwartel meincnod | 1 | 4 | 4 | 3 |
| **Mathemateg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 4 | 11 | 7 | 9 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 100.0 | 72.7 | 85.7 | 77.8 |
| Chwartel meincnod | 1 | 4 | 4 | 4 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 50.0 | 36.4 | 14.3 | 33.3 |
| Chwartel meincnod | 1 | 3 | 4 | 4 |
| **Gwyddoniaeth** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 4 | 11 | 7 | 9 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 100.0 | 90.9 | 85.7 | 77.8 |
| Chwartel meincnod | 1 | 3 | 4 | 4 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 50.0 | 18.2 | 42.9 | 55.6 |
| Chwartel meincnod | 1 | 4 | 3 | 1 |

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iath gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 26 | 25<br>96% | 1<br>4% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| | | 98% | 2% | |
| The school deals well with any bullying. | 26 | 21<br>81% | 5<br>19% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| | | 92% | 8% | |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 26 | 24<br>92% | 2<br>8% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| | | 97% | 3% | |
| The school teaches me how to keep healthy | 26 | 23<br>88% | 3<br>12% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| | | 97% | 3% | |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 26 | 26<br>100% | 0<br>0% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 96% | 4% | |
| I am doing well at school | 26 | 22<br>85% | 4<br>15% | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| | | 96% | 4% | |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 26 | 26<br>100% | 0<br>0% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| | | 99% | 1% | |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 26 | 24<br>92% | 2<br>8% | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| | | 98% | 2% | |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 26 | 18<br>69% | 8<br>31% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| | | 91% | 9% | |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 26 | 24<br>92% | 2<br>8% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| | | 95% | 5% | |
| Other children behave well and I can get my work done. | 26 | 19<br>73% | 7<br>27% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| | | 77% | 23% | |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 26 | 20<br>77% | 6<br>23% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |
| | | 84% | 16% | |

## Ymateb i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 15 | 9 | 6 | 0 | 0 | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 60% | 40% | 0% | 0% | | |
| | | 63% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 15 | 9 | 5 | 1 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 60% | 33% | 7% | 0% | | |
| | | 73% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 15 | 13 | 1 | 1 | 0 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 87% | 7% | 7% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 15 | 8 | 7 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 53% | 47% | 0% | 0% | | |
| | | 62% | 34% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 14 | 3 | 11 | 0 | 0 | 1 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 21% | 79% | 0% | 0% | | |
| | | 47% | 48% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 15 | 6 | 9 | 0 | 0 | 0 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 40% | 60% | 0% | 0% | | |
| | | 61% | 36% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 15 | 9 | 6 | 0 | 0 | 0 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 60% | 40% | 0% | 0% | | |
| | | 65% | 34% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 13 | 8 | 4 | 1 | 0 | 2 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 62% | 31% | 8% | 0% | | |
| | | 49% | 43% | 6% | 2% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 15 | 8 | 7 | 0 | 0 | 0 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 53% | 47% | 0% | 0% | | |
| | | 60% | 35% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 13 | 8 | 4 | 1 | 0 | 2 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 62% | 31% | 8% | 0% | | |
| | | 60% | 37% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 15 | 11 | 4 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 73% | 27% | 0% | 0% | | |
| | | 66% | 32% | 2% | 1% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 13 | 7 | 5 | 1 | 0 | 1 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 54% | 38% | 8% | 0% | | |
| | | 56% | 39% | 4% | 1% | | |
| I am kept well informed about my child's progress. | 15 | 9 | 6 | 0 | 0 | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 60% | 40% | 0% | 0% | | |
| | | 49% | 41% | 8% | 2% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 13 | 9<br>69% | 4<br>31% | 0<br>0% | 0<br>0% | 2 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 62% | 31% | 5% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 14 | 7<br>50% | 7<br>50% | 0<br>0% | 0<br>0% | 1 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 48% | 42% | 8% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 15 | 5<br>33% | 10<br>67% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 58% | 40% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 11 | 5<br>45% | 5<br>45% | 1<br>9% | 0<br>0% | 4 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 52% | 41% | 5% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 15 | 4<br>27% | 11<br>73% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 54% | 39% | 6% | 1% | | |
| The school is well run. | 14 | 6<br>43% | 8<br>57% | 0<br>0% | 0<br>0% | 1 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 62% | 33% | 3% | 2% | | |

# Atodiad 3

## Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Edward Goronwy Morris | Arolygydd Cofnodol |
| William Glyn Griffiths | Arolygydd Tîm |
| Meleri Cray | Arolygydd Lleyg |
| Paul Thomas | Arolygydd Cymheiriaid |
| Siân Williams | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed.  Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn.  Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

### Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

### Y dangosydd pwnc craidd (DPC)

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

### Setiau Data Craidd Cymru Gyfan

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol.  Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru.  Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau.  Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.  Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.